Munud i Feddwl

Dydd Nadolig: Daeth Crist i'n Plith!

Eleni oedd y tro cyntaf i Agnes fod yn gyfrifol am Ddrama'r Geni. Fe wyddai Agnes, fel pawb a fu'n gyfrifol am gael trefn ar Ddrama Nadolig y Capel, mai cwbl amhosibl oedd cael y cyfan yn berffaith, ond y Bore Sul hwnnw, yng Nghapel Horeb, 'roedd Agnes a'r gynulleidfa'n synnu fod y Ddrama Flynyddol wedi symud i anrhefn lwyr mor sydyn!

O edrych yn ôl ar y digwyddiad, tebyg byddai Agnes yn cyfaddef mai camgymeriad oedd gofyn i'r plant lleiaf ddod i'r capel wedi gwisgo fel anifeiliaid - a hynny heb wneud yn gwbl sicr fod y rhieni'n gwybod pa anifeiliaid yn union oedd eu hangen! Yn ogystal ar ddafad, ac asyn a gwartheg traddodiadol, ymddangosodd epa, corryn a dau pili pala ... ac un corrach bach. 'Roedd Nel, mam y corrach, yn gyson ymwrthod â'r traddodiadol mewn crefydd. Penderfyniad sydyn, ar y bore, oedd dweud wrth y plant i gyd i gofio actio'u cymeriadau! Down at oblygiadau hynny yn y man! Eto, o ystyried, nid peth call oedd symud o'r ddau neu dri angel a fu llynedd, i'r 'llu nefol' eleni. Cyn y bore hwn, prin buasai Agnes wedi dychmygu pa mor hir, a chymaint o straen i bawb, buasai cael dwsin o ferched i'w gwisgoedd, adenydd, tinsel ac eurgylchoedd! A phwy fuasai wedi meddwl, a hithau wedi dewis dau o gymeriadau callaf yr Ysgol Sul i adrodd y stori o'r pulpud, y buasai gofyn iddi i bwysleisio ar y bore, fel y bu hi'n pwysleisio, pwysleisio eto, ac eto fyth yn yr ymarferion, bod angen ynganu'n glir *iawn* a ph-wy-llog *iawn*, ac i dalu sylw i atalnodi'r sgript wrth gwrs?

Cystal cyfaddef, mae bore anodd oedd hi ym Methlehem yng Nghapel Horeb y Bore Sul hwnnw. Bu Mair yn sâl trwy'r nos, ond fe ddaeth, chwarae teg - yn llwydwyrdd - i'r capel, a gosodwyd bwced wrth ochr y preseb at ei defnydd personol. Efallai bod y Joseff gwreiddiol yn ŵr cyfiawn, ond nid oedd dethol ei mab ei hun, ac yntau 13 oed crintachlyd, i chwarae rôl Joseff wrth ochr y Mair ifanc (chwydlyd) ymhlith syniadau gorau Agnes. Ei bwriad oedd adlewyrchu'r gwahaniaeth oedran traddodiadol, ond 'roedd Jac, ei mab, wedi mynnu ei fod yn llawer rhy hen i fod yn Nrama Nadolig y Capel. Ond, gwneud bu'n rhaid iddo, ond hynny, ar y dydd, yn wg salw o'i goryn i'w sawdl; llusgodd ei hun trwy'i linellau yn dawel ddiflas.

O'r dechrau, 'roedd Agnes yn gwybod fod pethau'n mynd i fod yn anodd, ond pan ddaeth yr anifeiliaid i'r stabl, a phob un o'r bychain hyn yn hapus ufudd i'w cyfarwyddyd rhag blaen i actio'i gymeriad, fe drodd y Sêt Fawr yn sw o sŵn - crawcian, mewian, gwichian! 'Roedd angen cael trefn, ond gwyddai Agnes nad oedd modd rheoli'r sefyllfa o'r rhes flaen, ac felly, yn sydyn, aeth i'w canol, a'u tawelu, ac yn ddi-oed galwodd ar y bugeilid i ddod ymlaen. Fe ddaethant, yn araf, yn araf iawn, gan iddynt sylweddoli, cyn Agnes, bod rhywbeth a ddylai fod wedi digwydd heb ddigwydd. Ymdeimlodd Agnes ag anesmwythyd y gynulleidfa. Tynnodd un o'r bugeiliaid wrth ymyl ei sgert, gan sibrwd yn hyglyw, "*Angylion Agnes ... rhaid cael angylion cyn bugeiliaid!*"

Daeth yr angylion i'r Sêt Fawr, o dan arweiniad twt-twtlyd Miss Miller, a fu'n gyfrifol am Drama'r Geni ers cyn cof. Angylion dreng oeddent. Hir bu'r ymbaratoi, ac yn wir, i ambell un, yr ymbincio, dim ond i golli'u moment fawr oherwydd Agnes! Daeth y doethion, a chyflawni eu dyletswyddau, ond wrth dderbyn y myrr, chwydodd Mair i'r bwced, a daeth corws o "*Ugghh!*" o'r plant. Ta waeth, 'roedd pawb bellach yn eu lle, a chododd *Adroddwr 1*: Ioan, i'w draed. Dyma'r llinell fawr; dyma benllanw'r cyfan oll. Bu Agnes yn pendroni'n hir drosti. Arhosodd Ioan, pesychodd... "*Daeth Crist i'n plith??*" A hithau bellach, wedi llwyr ymlâdd, dywedodd Agnes wrth neb yn benodol: "*Gosodiad oedd y llinell ola' i fod, nid cwestiwn!*"

Weithiau mae'r Nadolig yn fwy o gwestiwn nag o osodiad. ***Daeth Crist i'n plith??*** Ti a minnau a'n tebyg; yn ffôl, gwan, gwamal fel ag yr ydym, a'n crefydd fach bigog ni: ***Daeth Crist i'n plith??*** Dirwasgiad, diweithdra, rhyfel a therfysg; newyn a phoen, difaterwch a difrawder: ***Daeth Crist i'n plith??***

Y Dydd Nadolig hwn, cofiwn nad oes gofynnod yn perthyn i Ymgnawdoliad Duw! **Daeth Crist i'n plith!!** Daeth i ganol cymhlethdod ac annibendod byw, i ganol holl broblemau dyrys ein byd. Heddiw, i ganol ein llafur a'n lludded, yr helynt a'r helbul, yr hwyl a'r miri i gyd, fe ddaw Mair i gyflwyno i ni'r Ymgnawdoliad Hardd - **Daeth Crist i'n plith!** (Llun: Seren Bethlehem – Eglwys y Geni, Bethelehem) Hwn yw ein Gwaredwr. Hwn "*a wareda ei bobl oddi wrth eu pechodau*" (Mathew 1: 21a). Dim gofynnod! Yn hytrach, ebychnod tragwyddol: **Daeth Crist i'n plith!!**

Yng nghanol byd y dolur, - yr angen,
A'r ingoedd didostur,
Y mae i'w gael falm i gur,
A Cheidwad i bechadur.

(Roger Jones, Talybont)
OLlE
25 Rhagfyr 2011